**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 18 Chwefror 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | C E Lloyd | J A Raynor |
| A H Stevens | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): L S Gibbard, C A Holley

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A Pugh

---

## 70. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiad(au) canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 83 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

2) Datganodd y Cynghorydd E T King gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 86 "Papur Cyllid Allanol COVIV-19 y Gwasanaethau Diwyllianol” a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth.

3) Datganodd y Cynghorydd A H Stevens gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 87 “Argymhelliad ar sut I drin rhenti ym Marchnad Abertawe, I’w roi ar waith o ddiwedd y cyfnod consesiwn diwethaf (16 Tachwedd 2020) I ddiwedd Blwyddyn ariannol 2020/21” a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth.

4) Datganodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Huw Evans gysylltiad personol â chofnod 87 “Argymhelliad ar sut I drin rhenti ym Marchnad Abertawe, I’w roi ar waith o ddiwedd y cyfnod consesiwn diwethaf (16 Tachwedd 2020) I ddiwedd Blwyddyn ariannol 2020/21”.

## 71. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2021.

## 72. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) "Ymgyrch Dim Hiliaeth Cymru" Cyngor Hil Cymru

Nododd Arweinydd y Cyngor ei fod ef, Dirprwy Arweinwyr ei Grŵp Gwleidyddol ac Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol eraill, ynghyd â'r Cynghorydd L S Gibbard wedi llofnodi Addewid Cyngor Hil Cymru fel rhan o'i "Ymgyrch Dim Hiliaeth Cymru".

## 73. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Derbyniwyd cwestiynau gan Jean Thomas a Steve Green mewn perthynas â Chofnod 78 “Cyllideb Refeniw 2021-2022”.

Ymatebodd aelod(au) perthnasol y Cabinet.

## 74. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 75. Adborth ar graffu cyn penderfynu ar y gyllideb flynyddol. (Llafar)

Cyflwynodd y Cynghorydd C A Holley yr adborth craffu cyn penderfynu.

## 76. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3ydd 2020/21

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn wedi'i eithrioo Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2020-2021 yn ariannol.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir ym mharagraff 2.7 yr adroddiad.

3) Gostwng lefel y gorwariant a ganiateir, mewn amgylchiadau eithafol, yn ystod y flwyddyn i £4m, i'w hariannu'n llawn o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, sy'n bell o fewn y symiau a gymeradwywyd yn nghyfarfod y cyngor ar 4 Tachwedd 2020, i sicrhau bod y gyllideb gyffredinol yn parhau i fod yn gytbwys am y flwyddyn. Nodi hefyd ddiweddariad llafar y Swyddog Adran 151 sy'n nodi y byddai'r sefyllfa'n gwella drwy gynnydd o £10m o leiaf ar y symiau a gynigiwyd eisoes ers drafftio'r adroddiad.

4) Bydd y Cabinet yn parhau i gadarnhau na all unrhyw swyddog ystyried unrhyw ymrwymiadau gwario pellach a lle bo'n bosib, dylid parhau i ohirio gwariant i gynnwys a lleihau'r gorwariant cymedrol tebygol a ragwelwyd erbyn diwedd y flwyddyn i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, wrth ddarparu blaenoriaethau'r cyngor y cytunwyd arnynt a amlinellir yn y gyllideb a gymeradwywyd.

## 77. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2022/23 - 2025/26

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/ dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a manylodd ar y tybiaethau ariannu mawr ar gyfer y cyfnod, gan gynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Argymell Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2022-2023 hyd at 2025-2026 i'r cyngor fel sail ar gyfer cynllunio ariannol y gwasanaethau yn y dyfodol.

## 78. Cyllideb Refeniw 2021/2022

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2021-2022. Roedd yn manylu ar y canlynol:

- Monitro ariannol 2020-2021;
- Setliad cyllid llywodraeth leol 2021-2022;
- Rhagolwg cyllidebol 2021-2022;
- Cynigion arbed penodol;

- Canlyniad yr ymgynghoriad ar y gyllideb;
- Goblygiadau staffio;
- Gofynion y cronfeydd wrth gefn;
- Gofyniad y gyllideb a Threth y Cyngor 2021-2022;
- Crynodeb o gynigion ariannu;
- Risgiau ac ansicrwydd.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Ystyried canlyniad yr ymarfer ymgynghori ffurfiol a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r cynigion cyllidebol yn Atodiad D yr adroddiad yn ogystal â'r sefyllfa o ran cyllidebau dirprwyedig fel a nodwyd yn Adrannau 4.10 a 4.11 yr adroddiad.

2) Nodi cyfanswm y gofyniad ariannu a grybwyllwyd yn Adran 4.6 yr adroddiad ac, yn unol â'r camau gweithredu posib a nodwyd yn Adrannau 9 a 10 yr adroddiad, gytuno ar gamau gweithredu i gyflawni Cyllideb Refeniw gytbwys ar gyfer 2021-2022.

3) Yn ogystal ag adolygiad o gynigion arbed presennol, gwnaeth y Cabinet y canlynol:

   a) Adolygu a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn a argymhellir yn yr adroddiad hwn;

   b) Cytunwyd ar lefel treth y cyngor ar gyfer 2021-2022 i'w hargymell i'r cyngor.

4) Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd ac a restrwyd uchod, mae'r Cabinet yn argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

   a) Cyllideb Refeniw ar gyfer 2021-2022;

   b) Gofyniad y gyllideb ac ardoll Treth y Cyngor ar gyfer 2021-2022.

## 79. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2020/21- 2026/27

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020-2021 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021-2022 i 2026-2027.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r Gyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020-2021 a Chyllideb Gyfalaf 2021-2022 - 2026-2027 fel a fanylir yn Atodiadau A, B, C, D, E ac F yr adroddiad.

## 80. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Cyllideb Refeniw 2021/22.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2021-2022 a chynnydd rhent i eiddo o fewn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

**Penderfynwyd** argymell y cynigion cyllidebol canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cynyddu rhenti'n unol â pholisi rhent dros dro newydd Llywodraeth Cymru fel a fanylwyd yn Adran 1 yr adroddiad;

2) Cymeradwyo ffïoedd, taliadau a lwfansau fel a amlinellir yn Adran 4 yr adroddiad;

3) Cynigion y gyllideb refeniw fel a nodwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

## 81. Cyfrif Refeniw Tai - cyllideb a rhaglen gyfalaf 2020/21 - 2024/2025

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020-2021 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021-2022 – 2024-2025.

**Penderfynwyd** argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2020-2021.

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2021-2022 – 2024-2025.

3) Lle caiff cynlluniau unigol fel y'u dangosir yn Atodiad B yr adroddiad eu rhaglennu dros y cyfnod 4 blynedd a ddisgrifir yn yr adroddiad, caiff y rhain eu dilyn a'u cymeradwyo, a chymeradwyir eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y 4 blynedd.

4) Dylid nodi lefelau cydymffurfio Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a'r estyniad terfyn amser.

## 82. Strategaeth Gyfalaf 2020/21- 2026/27.*

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y*

*penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Gyfalaf sy'n cyfeirio'r Rhaglen Gyfalaf saith blynedd.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Dylid anfon Strategaeth Gyfalaf 2020-2021 – 2026-2027 i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

## 83. Penodiadau Llywodraethwyr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol yr Esgob Gore | Y Cyng. Mark Child |
| 2) | Ysgol Gynradd Pennard | Heidi Lythgoe |
| 3) | Ysgol Gynradd Waunarlwydd | Rayna Soproniuk |
| 4) | Ysgol Crug Glas | Quentin Hawkins<br>Lynne Smith |

## 84. Ardal Ganolog Abertawe - Adfywio'n Dinas ar gyfer Lles a Bywyd Gwyllt.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo a mabwysiadu Ardal Ganolog Abertawe – Strategaeth Adfywio'n Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth.

## 85. Adfywio Sgwâr y Castell RhGA 7.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gynnal astudiaeth ddichonoldeb a chysyniad cam cyntaf ar gyfer adfywio Sgwâr y Castell. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio awdurdodiad cyllidebol i symud ymlaen i gamau nesaf dylunio, cynllunio ac ymgynghori manwl yn unol â'r Rheol Gweithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf", i ymrwymo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Ychwanegu ffioedd o £782,000 ar gyfer cynllun Adfywio Sgwâr y Castell at y rhaglen gyfalaf yn unol â Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 i symud ymlaen i gynllunio, cynllunio ac ymgynghori cyhoeddus manwl.

**86. Papur Cyllid Allanol COVID-19 y Gwasanaethau Diwyllianol**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ôl-weithredol ar gyfer cyllid grant allanol a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Diwylliannol mewn cysylltiad â chyllid adfer COVID-19 Sector Diwylliannol Llywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r ymdrechion i gyrchu cyllid allanol/y llywodraeth ar gyfer y Sector Diwylliannol gan arwain at wneud ceisiadau heb fawr o rybudd.

2) Cadarnhau cymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer derbyn a defnyddio'r arian a dderbyniwyd, ac awdurdodi derbyn symiau sy'n aros, ar yr amod bod meini prawf yn cael eu cyflawni fel yr amlinellir ym Mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

**87. Argymhelliad ar sut i drin rhenti ym Marchnad Abertawe, i'w roi ar waith o ddiwedd y cyfnod consesiwn diwethaf (16 Tachwedd 2020) i ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo dull o drin rhenti ym Marchnad Abertawe i'w weithredu o ddyddiad gorffen cyfnod consesiwn rhent cysylltiedig COVID-19 (16 Tachwedd 2020) y cytunwyd arno hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/2021.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud COVID-19 (h.y. ar adegau pan na chaniateir i fanwerthu nad yw'n hanfodol fasnachu), mae pob masnachwr yn cael gostyngiad o 70% mewn rhent.

2) Yn ystod pob cyfnod arall tan ddiwedd pandemig COVID-19, rhoddir consesiwn rhent i fasnachwyr unigol sy'n dangos gostyngiad o 40% mewn trosiant yn ystod cyfnod diffiniedig o’i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Byddai masnachwyr nad ydynt yn gymwys i gael grantiau Llywodraeth Cymru hyd yma'n derbyn gostyngiad ychydig yn uwch ar ôl dangos gostyngiad o 30% mewn trosiant.

3) Os caiff y cyfyngiadau symud eu codi ond na all pob manwerthwr nad yw'n hanfodol ailddechrau masnachu (e.e. rhaid i wasanaethau cyswllt agos fel salonau harddwch aros ar gau), caiff y busnesau unigol hyn eu trin fel achosion unigryw a byddent yn parhau i dderbyn y gostyngiad o 70% mewn rhent tan adeg pan ganiateir iddynt ailagor yn gyfreithiol.

4) Cyfrifir rhenti Marchnad Abertawe ac maent yn ddyledus bob 4 wythnos. Byddai'r consesiynau'n cwmpasu'r cyfnodau rhent canlynol:

16 Tachwedd 2020 i 13 Rhagfyr 2020.
14 Rhagfyr 2020 i 10 Ionawr 2021.
11 Ionawr 2021 tan 7 Chwefror 2021.
8 Chwefror 2021 i 7 Mawrth 2021.
8 Mawrth 2021 i 4 Ebrill 2021.

Er mwyn hwyluso gweinyddiaeth a symleiddio cyfathrebiadau â Masnachwyr Marchnad Abertawe, cynigir bod y consesiynau'n berthnasol i 4 Ebrill 2021 yn lle 31 Mawrth 2021.

## 88. Cymeradwyo Cytundebau Ariannu Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a nododd yr amodau a’r telerau sy'n gysylltiedig â dyfarnu cyllid y llywodraeth. Roedd hefyd yn ceisio cymeradwyo'r cytundebau ariannu y mae eu hangen i sicrhau bod cyllid y fargen ddinesig yn cael ei ryddhau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r amodau a thelerau sy'n gysylltiedig â'r cynnig o gyllid gan y llywodraeth yn y llythyr Dyfarnu Cyllid dyddiedig 16 Rhagfyr 2020.

2) Cymeradwyo cynnwys y prif gytundeb ariannu rhwng y Corff Atebol a Chyngor Abertawe mewn perthynas â Phrosiect Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau yn Atodiad A i'r adroddiad ac awdurdodi'r Prif Swyddog Cyfreithiol i wneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol ac ymrwymo i'r cytundeb ar ran y cyngor i'w alluogi i dderbyn cyllid y Fargen Ddinesig.

3) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lleoedd ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid i arfer awdurdod dirprwyedig i gwblhau telerau unrhyw gytundeb ariannu rhwng y Corff Atebol a Chyngor Abertawe mewn perthynas ag unrhyw brosiectau eraill y Fargen Ddinesig lle mae'r cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Arweiniol y Prosiect ac yn awdurdodi'r Prif Swyddog Cyfreithiol i ymrwymo i'r cytundebau hynny ar ran y cyngor.

4) Nodi cynnwys y templed cytundeb ariannu eilaidd y bydd y cyngor yn ymrwymo iddo gyda Derbynnydd cyllid y Fargen Ddinesig oddi wrth y Llywodraeth yn Atodiad B i'r adroddiad ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lleoedd ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid i drafod a chytuno ar delerau terfynol gydag unrhyw Dderbynnydd perthnasol mewn unrhyw brosiect y Fargen Ddinesig sy'n cynnwys y cyngor ac awdurdodi'r Prif Swyddog Cyfreithiol i ymrwymo i'r cytundebau hynny ar ran y cyngor.

## 89. Rheol 7 y weithdrefn ariannol, amddiffyniad arfordirol y Mwmbwls - grant rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol 2018-22.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a gadarnhaodd y grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd (Cyfalaf) diweddaraf gan Lywodraeth Cymru a chynnwys y gwariant yn y rhaglen gyfalaf ar

gyfer 2020/2021 a 2021/2022 i gydymffurfio â Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 "er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynllun at y Rhaglen Gyfalaf".

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cadarnhau’r grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd (Cyfalaf) o £1,114,461.00, sef 100% o gyfanswm o'r cyllid ar gyfer cam dylunio'r cynllun hwn a bod hyn wedi'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer blynyddoedd 2020/2021 hyd at 2021/2022. Cyfanswm cost cam cychwynnol y cynllun yw £1,114,461.00.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.00 pm

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 18 Chwefror 2021 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 23 Chwefror 2021 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 24 Chwefror 2021 |